Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Blaenycwm is a,
Happy, Ambitious,
Inclusive Community

Teitl:	**Dirprwy Bennaeth**
Lleoliad:	**Ysgol Gynradd Blaenycwm**
Cyfarwyddiaeth:	**Addysg**
Cyfeirnod/Rhif Swydd:	**BG05500**
Cyflog:	**Ystod Tâl Arweinyddiaeth, L7 – L11 (£52,371 - £57,790 y flwyddyn)**
Oriau:	**Llawn-amser, Parhaol**
Dyddiad Dechrau:	**1 Medi 2023**

Nifer ar y Gofrestr 278 (yn cynnwys 43 Meithrinfa Lawn-amser)

Mae disgyblion, staff a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Blaenycwm yn edrych am ymarferydd blaengar ac sy'n ysbrydoli, gyda sgiliau arweinyddiaeth amlwg i lanw swydd Dirprwy Bennaeth ein hysgol.

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn ysbrydoli ac yn cefnogi tîm brwdfrydig, bydd yn athro/athrawes rhagorol ac arloesol, gan gyfathrebu'n dda gyda phob rhan-ddeiliad a chwarae rhan egnïol yn ein ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynnal gweledigaeth yr ysgol:

Mae Ysgol Gynradd Blaenycwm yn
'Gymuned Hapus, Uchelgeisiol a Chynhwysol.'

A disgwylir i'r Dirprwy Bennaeth adeiladu ar ein llwyddiannau, ymrwymiadau a disgwyliadau i gynnig cwricwlwm cyfoethog a chreadigol sy'n ateb anghenion dysgu ein holl ddisgyblion, gan alluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhywun sy'n barod am her newydd mewn ysgol sy'n gwella'n barhaus.

Edrychwn am ymarferydd sydd yn:

- Arddangos ymarfer ystafell ddosbarth rhagorol, creadigol gyda disgwyliadau uchel am gyrhaeddiad ac ymddygiad plant. Arwain dysgu drwy gyfleoedd cyffrous, heriol a grymusol ar gyfer pob dysgwr;
- Meddu ar sgiliau rhyngbersonol rhagorol i ysbrydoli, arwain, trefnu a chymell holl aelodau cymuned yr ysgol;
- Meddu ar y gallu i gynnal ac adeiladu partneriaethau gyda disgyblion, rhieni, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned leol;
- Medru arwain datblygiad cwricwlwm a datblygiad proffesiynol parhaus;
- Gweithiwr tîm rhagorol, a all weithio wrth ochr uwch arweinwyr eraill o fewn yr ysgol;
- Meddu ar wytnwch, hyblygrwydd, brwdfrydedd a gyda chymhelliant i sicrhau rhagoriaeth;

- Athro/Athrawes ardderchog a gyda'r disgwyliadau uchaf ar gyfer dysgu disgyblion.

Yn ôl am hyn gallwn gynnig:

- Disgyblion brwdfrydig, hyderus sy'n awyddus i ddysgu;
- Tîm staff ymroddedig a phrofiadol;
- Ysgol lle mae llesiant yn ganolog ar gyfer llwyddiant disgyblion a phob aelod o staff
- Dysgu a chefnogaeth proffesiynol i ddatblygu fel arweinydd o fewn ysgol gynradd;
- Corff Llywodraethu cefnogol ac sydd wedi sefydlu'n dda.

Bydd angen i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer gael eu harsylwi'n addysgu gwers cyn y cyfweliad yn eu hysgol eu hunain.

Mae Ysgol Gynradd Blaenycwm yn ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymroddiad hwn.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Estynedig ar Gofnodion Troseddol yn cynnwys rhestr Gwahardd rhag Gweithio gyda Plant.

Mae angen cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg dan gategori Athro/Athrawes Ysgol ar gyfer y swydd hon a bydd angen i'r cofrestru fod yn ei le cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ar gael ar y wefan ddilynol: **http://www.ewc.wales/** neu drwy ffonio 02920 460099.

Dyddiad Cau:	**Canol nos 16 Ebrill 2023**
Llunio rhestr fer:	**20 Ebrill 2023**
Ymweliad ysgol ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer:	**26 Ebrill 2023**
Arsylwi gwers:	**27 neu 28 Ebrill 2023**
Cyfweliadau:	**2 a 4 Mai 2023**